POLISÏAU

Polisi Cosbau Ariannol

DOGFEN REOLEIDDIO

Mae'r polisi hwn yn ymwneud â'r cosbau ariannol y gallwn eu gosod ar gyrff dyfarnu a gydnabyddir gennym.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

Dyma Fersiwn 1 o'r polisi, a gyflwynwyd yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch polisi drafft a chyflwyno Rheoliadau gerbron Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Rydym yn adolygu ein Dogfennau Rheoleiddio yn barhaus, ac yn croesawu adborth ar unrhyw adeg. Anfonwch unrhyw sylwadau i polisi@cymwysteraucymru.org

Cynnwys

Polisi Cosbau Ariannol 1
Cefndir 4
Egwyddorion Cyffredinol y Polisi 5
Amgylchiadau lle rydym yn debygol o osod Cosb Ariannol 6
Y ffactorau yr ydym yn debygol o'u hystyried wrth bennu swm Cosb Ariannol 7
Adennill costau 8
Apeliadau 8
Sut i Apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf 9
Gweithdrefn ar gyfer gosod cosb ariannol 10
Cam 1: Hysbysiad o Fwriad 10
Sylwadau i ni cyn gwneud penderfyniad terfynol 10
Cam 2: Hysbysiad Cosb Ariannol 11
Hysbysiad Adennill Costau 11

Cefndir

Er mwyn cyflawni'r swyddogaethau hyn, mae Deddf Cymwysterau Cymru 2015 (y "Ddeddf") yn rhoi nifer o bwerau i ni sy'n ein galluogi i gymryd camau gorfodi lle y bo'n rhesymol ac yn angenrheidiol i ni wneud hynny. Mae Adran 38 o'r Ddeddf yn rhoi'r pŵer i ni osod cosb ariannol ar unrhyw gorff dyfarnu a gydnabyddir gennym.

Mae'r datganiad polisi hwn yn ymwneud â'r holl gyrff dyfarnu a gydnabyddir gennym o dan Adran 4 (Cydnabod cyrff dyfarnu) o'r Ddeddf.

Nod y polisi hwn yw:

- nodi'r amgylchiadau lle rydym "ni" (Cymwysterau Cymru) yn debygol o osod cosb ariannol o dan adran 38 o'r Ddeddf; a
- y ffactorau yr ydym yn debygol o'u hystyried wrth bennu swm y gosb honno.

Egwyddorion Cyffredinol y Polisi

Mae "cosb ariannol" yn ofyniad ar gorff dyfarnu i dalu swm o arian i ni o ganlyniad i fethu â chydymffurfio â'i Amodau Cydnabod neu Amodau Cymeradwyo.

Mae ein Fframwaith a Dull Rheoleiddio yn egluro ein dull o reoleiddio. Rydym yn gweithredu ar sail risg er mwyn cyflawni ein prif nodau, sef cynnal hyder y cyhoedd yn y system cymwysterau a diogelu buddiannau rhesymol dysgwyr yng Nghymru. Byddwn bob amser yn ceisio atal pethau rhag mynd o chwith, a'u lliniaru, yn unol â'r prif nodau hyn.

Mae'r system cymwysterau yn gymhleth, ac, weithiau, gall pethau fynd o chwith. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, byddwn yn ystyried y gyfres o gamau sydd ar gael i ni, gan ystyried yr amgylchiadau. Mae gosod cosb ariannol yn bŵer sylweddol, fel yr eglurwn yn ein Polisi Cymryd Camau pan aiff Pethau o Chwith.

Pennir y gosb ariannol fwyaf y gallwn ei gosod mewn Rheoliadau a luniwyd gan Weinidogion Cymru. Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu terfyn uchaf y gosb ariannol y gallwn ei gosod ar gyrff dyfarnu cydnabyddedig. Byddai'r union gosb uchaf y byddem yn ei gosod yn cael ei phennu fesul achos ar sail tystiolaeth, ac ni fyddai'n fwy na'r terfyn uchaf. Mae'r polisi hwn yn nodi'r amgylchiadau a'r ffactorau y byddem yn eu hystyried er mwyn pennu union swm unrhyw gosb ariannol.

Ni chaiff y gosb ei thalu i ni ond yn hytrach i Gronfa Gyfunol Cymru, (a sefydlwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ac a reolir gan Drysorlys EM). At hynny, ac fel y nodir yn Adran 41(1) o'r Ddeddf, gallwn adennill unrhyw gostau y byddwn wedi mynd iddynt yn rhesymol wrth osod cosb ariannol, a bydd y rhain yn daladwy i ni yn uniongyrchol.

Nid ydym yn disgwyl i gyrff dyfarnu drosglwyddo'r costau sy'n gysylltiedig â chosbau ariannol i'r prynwyr. Ar ôl gosod cosb ariannol ar gorff dyfarnu, byddwn, lle y bo'n briodol, yn monitro'r ffioedd ar gyfer cymwysterau, a hynny er budd y prynwyr a'r dysgwyr, ac er mwyn sicrhau gwerth am arian.

Amgylchiadau lle rydym yn debygol o osod Cosb Ariannol

1. Yn unol â'r Ddeddf, gallwn ystyried gosod cosb ariannol yn yr amgylchiadau canlynol:

    i. lle bo corff dyfarnu wedi methu â chydymffurfio ag Amod y mae ei gydnabyddiaeth yn ddarostyngedig iddo;
    ii. lle bo corff dyfarnu sy'n dyfarnu cymhwyster a gymeradwywyd wedi methu â chydymffurfio ag Amod y mae ei gymeradwyaeth yn ddarostyngedig iddo.

2. Wrth benderfynu a ddylid gosod cosb ariannol, byddwn yn ystyried ffactorau tebyg i'r canlynol:

    i. effaith yr achos o ddiffyg cydymffurfio, gan gynnwys yr effaith ar ddysgwyr, ar safon cymwysterau neu ar hyder y cyhoedd yn system gymwysterau Cymru;
    ii. a oedd yr achos o ddiffyg cydymffurfio yn fwriadol;
    iii. a oedd yr achos o ddiffyg cydymffurfio o ganlyniad i esgeulustod, anghymhwysedd neu aneffeithlonrwydd;
    iv. a oedd y corff dyfarnu yn ymwybodol o'r achos o ddiffyg cydymffurfio ond na chawsom ni na'r dysgwyr perthnasol wybod amdano, neu a oedd wedi hysbysu'r personau priodol ond nid mewn modd amserol;
    v. a arweiniodd yr achos o ddiffyg cydymffurfio at fudd ariannol neu fantais gystadleuol;
    vi. a oedd yr achos o ddiffyg cydymffurfio yn ddigwyddiad untro
    vii. a oedd yr achos o ddiffyg cydymffurfio o ganlyniad i fethiant systemig ehangach;
    viii. i ba raddau yr oedd y corff dyfarnu yn ymwybodol o'r achos o ddiffyg cydymffurfio (neu y cafodd wybod amdano), ond na chymerodd yr holl gamau rhesymol i atal, lliniaru neu unioni ei effeithiau;
    ix. a oedd unrhyw gamau a gymerwyd gan y corff dyfarnu i atal, lliniaru neu unioni ei effeithiau yn annigonol;
    x. p'un a oeddem eisoes wedi rhoi arweiniad ar faes yn ymwneud â'r achos o ddiffyg cydymffurfio ai peidio;
    xi. y tebygolrwydd, yn ein barn ni, y bydd y diffyg cydymffurfiaeth neu rywbeth tebyg yn codi eto;
    xii. a fydd gosod cosb ariannol yn annog cydymffurfiaeth yn y dyfodol; ac
    xiii. a fyddai mathau eraill a/neu gyfuniadau eraill o gamau gweithredu sydd ar gael i ni yn cynnig ffordd well o liniaru effeithiau'r achos o ddiffyg cydymffurfio.

3. Byddwn yn gweithio gyda rheoleiddwyr eraill, lle y bo'n briodol i ni wneud hynny, er mwyn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio ar draws

awdurdodaethau. Byddwn yn ystyried sancsiynau ariannol a orfodwyd gan reoleiddiwr arall mewn perthynas â'r un achos o ddiffyg cydymffurfio.

4. Mae'r pŵer i osod cosb ariannol yn un o nifer o bŵerau gorfodi a sancsiynau a roddir i ni yn y Ddeddf, ac a amlinellir yn ein Polisi Cymryd Camau Pan Aiff Pethau o Chwith. Mae'r polisi hwnnw'n nodi'r modd y mae'r gyfres o bŵerau'n gweithio fel set gyfan.

5. Dim ond mewn perthynas ag achosion o ddiffyg cydymffurfio y gallwn osod cosb ariannol ar gorff dyfarnu. Lle y bydd pryderon am achosion posibl o ddiffyg cydymffurfio yn y dyfodol, byddwn yn monitro cydymffurfiaeth yn barhaus.

6. Yn yr un modd, mae'n bosibl y bydd amgylchiadau lle y byddwn yn ystyried bod cam gweithredu amgen yn fwy priodol. Er enghraifft, lle y byddwn yn pennu na fydd gan gorff dyfarnu, o bosibl, ddigon o adnoddau neu allu, efallai y byddwn yn penderfynu tynnu cydnabyddiaeth y corff dyfarnu mewn perthynas â'r cymwysterau hynny yn ôl (*Atodlen 3, Adran 19 – Tynnu Cydnabyddiaeth Yn Ôl*).

Y ffactorau yr ydym yn debygol o'u hystyried wrth bennu swm Cosb Ariannol

7. Ni chaiff unrhyw gosb ariannol a osodir gennym fod yn fwy na 10 y cant o drosiant blynyddol DU y corff dyfarnu, fel y'i diffinnir mewn Rheoliadau, a gymeradwywyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 2 Ebrill 2019. Daeth y Rheoliadau hyn i rym ar 12 Ebrill 2019.

8. Wrth bennu swm cosb ariannol, byddwn yn ystyried yr amgylchiadau a arweiniodd at yr achos o ddiffyg cydymffurfio ac effaith bosibl y swm pe byddem yn ei osod. Byddwn yn pennu swm pob cosb ariannol fesul achos.

9. Yn dibynnu ar yr achos, dyma'r ffactorau yr ydym yn debygol o'u hystyried wrth bennu'r swm:

    i. y camau a gymerwyd gan y corff dyfarnu i unioni'r achos o ddiffyg cydymffurfio, lliniaru ei effeithiau a/neu ei atal rhag digwydd eto;
    ii. unrhyw gostau yr aeth y corff dyfarnu iddynt wrth geisio unioni'r achos o ddiffyg cydymffurfio, lliniaru ei effeithiau a/neu ei atal rhag digwydd eto;
    iii. a roddodd y corff dyfarnu wybod i ni'n brydlon am yr achos o ddiffyg cydymffurfio neu a gafodd ei nodi gennym o ganlyniad i gŵyn, achos o chwythu'r chwiban neu weithgarwch monitro/archwilio;
    iv. natur y diffyg cydymffurfio o'i gymharu ag achosion tebyg, lle bo ar gael, y gosodwyd cosbau ariannol amdanynt;

v. effaith debygol y gosb ariannol ar allu'r corff dyfarnu i ddatblygu, cyflwyno a dyfarnu cymwysterau rheoleiddiedig;
vi. effaith bosibl y gosb ariannol ar y corff dyfarnu a'i allu i gydymffurfio â'i Amodau Cydnabyddiaeth yn y dyfodol;
vii. trosiant y corff dyfarnu o ganlyniad i weithgarwch rheoleiddiedig mewn perthynas â chyfanswm ei drosiant.

Adennill costau

10. Fel y nodir yn Adran 41 (1) o'r Ddeddf, gallwn ei gwneud yn ofynnol i'r corff dyfarnu dalu unrhyw gostau y byddwn wedi mynd iddynt yn rhesymol wrth osod y gosb ariannol honno.

11. Wrth benderfynu p'un a ddylid adennill y costau hyn ai peidio, byddwn yn ystyried graddau'r costau hyn.

12. Rydym yn rhagweld y byddem yn ystyried adennill ein costau yn yr amgylchiadau canlynol:

    i. lle mae cost ymchwilio i ddiffyg cydymffurfio yn fwy na'r gost a ragwelwyd neu yr ystyrir ei bod yn rhesymol gennym fel rhan o'n gweithgarwch rheoleiddio;
    ii. os yw'r gost i ni o osod cosb ariannol yn fwy na'r gost a ragwelwyd neu yr ystyrir ei bod yn rhesymol; a
    iii. lle rydym wedi mynd i gostau wrth gael cyngor cyfreithiol mewn perthynas â gosod y gosb ariannol.

Apeliadau

13. Pan fyddwn yn cyflwyno Hysbysiad o Gosb Ariannol i gorff dyfarnu, byddwn yn nodi y gall y corff dyfarnu apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf ("Tribiwnlys") yn erbyn y penderfyniad hwnnw.

14. Mae adran 39 o'r Ddeddf yn nodi y gellir apelio i'r Tribiwnlys mewn perthynas â'r canlynol:

    i. penderfyniad i osod cosb ariannol ar y corff; a/neu
    ii. penderfyniad o ran swm y gosb.

15. Pan fyddwn yn llunio Hysbysiad Adennill Costau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gorff dyfarnu wneud taliadau mewn perthynas â chostau, byddwn yn nodi y gall y corff dyfarnu apelio i'r Tribiwnlys yn erbyn y penderfyniad hwnnw.

16. Mae adran 42 o'r Ddeddf yn nodi y gellir apelio i'r Tribiwnlys mewn perthynas â'r canlynol:

i. penderfyniad i'w gwneud yn ofynnol i'r corff dalu Cymwysterau Cymru y costau o osod cosb ariannol; neu
ii. benderfyniad o ran swm y costau hynny.

17. Os caiff apêl ei wneud i'r Tribiwnlys, caiff y gofyniad i dalu'r gosb neu gostau adennill (ac unrhyw ofyniad dilynol i dalu llog os na chaiff y taliad hwn ei wneud) ei atal dros dro hyd nes y caiff yr apêl ei thynnu'n ôl neu y caiff penderfyniad ei wneud yn ei chylch.

18. Gall y Tribiwnlys tynnu'r gosb a osodwyd gennym yn ôl, ei newid neu ei chadarnhau. Gall hefyd osod sancsiwn gwahanol neu ychwanegol ar y corff dyfarnu, neu gyfeirio'r penderfyniad ynghylch unrhyw fater sy'n ymwneud â'r penderfyniad i osod cosb ariannol yn ôl atom i'w ystyried.

19. Fel arfer, byddwn yn cyhoeddi ein penderfyniadau ar ein gwefan.

Sut i Apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf

20. Caiff apeliadau eu gwneud i Siambr Reoleiddio Gyffredinol y Tribiwnlys Haen Gyntaf. Dylid apelio drwy anfon hysbysiad apêl i'r Tribiwnlys o fewn amserlen ofynnol a bennir gan y Tribiwnlys hwnnw. Mae'r amserlen hon yn ymwneud â'r dyddiad yr anfonwyd yr hysbysiad o'r penderfyniad i osod cosb ariannol i'r corff dyfarnu. Ceir rhagor o wybodaeth ar Siambr Reoleiddio Gyffredinol y Tribiwnlys Haen Gyntaf isod, sydd yn cynnwys dolen at adran sy'n ymwneud â bwrdd arholi :
https://www.gov.uk/courts-tribunals/first-tier-tribunal-general-regulatory-chamber

Cyfeiriad y Tribiwnlys Haen Gyntaf yw:

First-tier Tribunal
General Regulatory Chamber (Exam Boards)
PO BOX 9300
Leicester
Leicestershire
LE1 8DJ
Ffôn: 0300 1234 504
E-bost: GRC@hmcts.gsi.gov.uk

21. Mae Rheolau'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Siambr Reoleiddio Gyffredinol), ynghyd ag unrhyw gyfarwyddiadau ynghylch arfer a roddir gan Uwch-lywydd Tribiwnlysoedd, yn llywodraethu'r arfer a'r weithdrefn i'w dilyn gan y tribiwnlys.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am y Tribiwnlys Haen Gyntaf a'r Tribiwnlys Haen Uchaf yma: www.legislation.gov.uk/uksi/2009/1976/made

Gweithdrefn ar gyfer gosod cosb ariannol

22. Cyn gosod cosb ariannol, byddwn yn cysylltu â'r corff dyfarnu perthnasol er mwyn casglu tystiolaeth yn ymwneud â'r achos o ddiffyg cydymffurfio. Byddwn yn casglu'r dystiolaeth hon mewn modd diduedd. Rydym yn disgwyl i gyrff dyfarnu gydweithredu â ni ar y cam hwn.

23. Ar ôl i ni benderfynu ei bod yn briodol gosod cosb ariannol, byddwn yn ceisio pennu'r swm priodol. Diben hyn yw sicrhau bod y swm a bennir o fewn y terfyn uchaf. Mae'r terfyn uchaf hwn o 10 y cant o drosiant DU wedi'i ragnodi yn Rheoliadau Cymwysterau Cymru (Cosbau Ariannol) (Penderfynu ar Drosiant) 2019.

24. Byddem yn tynnu ar wahanol ffynonellau er mwyn pennu'r terfyn uchaf, gan gynnwys trafodaethau â'r corff dyfarnu.

Cam 1: Hysbysiad o Fwriad

25. Cyn gosod cosb ariannol, byddwn yn hysbysu'r corff dyfarnu dan sylw o'n bwriad i wneud hynny.

26. Bydd yr Hysbysiad o Fwriad yn gwneud y canlynol:

    i. amlinellu'r rhesymau dros gynnig gosod y gosb; a
    ii. nodi swm arfaethedig y gosb.

Sylwadau i ni cyn gwneud penderfyniad terfynol

27. Bydd gan gorff dyfarnu sy'n cael Hysbysiad o Fwriad y ddau opsiwn canlynol:

    i. cyflwyno sylwadau a/neu wrthwynebiadau yn ysgrifenedig i ni ynghylch y cynnig i osod y gosb ariannol a/neu swm y gosb ariannol. Bydd gan y corff dyfarnu hyd at 28 diwrnod i wneud hynny (o ddyddiad yr Hysbysiad o Fwriad) a phan fyddwn yn penderfynu a ddylid gosod y gosb, byddwn yn ystyried unrhyw sylwadau a wnaed gan y corff dyfarnu;
    ii. gwneud dim, ac os felly, byddwn yn aros hyd nes bod y cyfnod a bennir yn yr Hysbysiad o Fwriad (sef 28 diwrnod o leiaf) wedi dod i ben, ac yna'n mynd ati i osod y gosb ariannol.

Cam 2: Hysbysiad Cosb Ariannol

28. Ar ôl i ni ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynwyd, byddwn yn penderfynu a ddylid tynnu'r gosb ariannol yn ôl, ei newid neu ei chadarnhau.

29. Os byddwn yn cadarnhau ein penderfyniad i osod cosb ariannol (gan gynnwys lle y caiff y swm ei newid), byddwn yn rhoi Hysbysiad Cosb Ariannol i'r corff dyfarnu dan sylw, a fydd yn nodi'r canlynol:

    i. y rhesymau dros osod y gosb ariannol;
    ii. swm y gosb ariannol;
    iii. sut y dylid gwneud y taliad;
    iv. erbyn pryd y mae'n rhaid gwneud y taliad;
    v. canlyniadau peidio â thalu;
    vi. hawliau apelio (gweler yr adran ar Apeliadau uchod).

30. Telir unrhyw symiau a gawn ar ffurf cosb ariannol i Gronfa Gyfunol Cymru.

31. Byddwn yn cyhoeddi manylion pob Hysbysiad Cosb Ariannol.

Hysbysiad Adennill Costau

32. Os byddwn yn penderfynu ei gwneud yn ofynnol i gorff dyfarnu dalu costau rhesymol y byddwn wedi mynd iddynt wrth osod cosb ariannol, byddwn yn cyflwyno Hysbysiad Adennill Costau i'r corff dyfarnu hwnnw. Bydd yr hysbysiad hwn yn cynnwys gwybodaeth am y canlynol:

    i. swm y costau, gan gynnwys dadansoddiad o'r cyfanswm;
    ii. sut y dylid gwneud y taliad;
    iii. erbyn pryd y mae'n rhaid gwneud y taliad;
    iv. canlyniadau peidio â thalu; ac
    v. hawliau apelio (gweler yr adran ar Apeliadau isod).

33. Efallai y byddwn yn codi llog ar gorff dyfarnu am swm y gosb ariannol neu'r costau i'w hadennill os na fydd y swm cyfan hwnnw, neu ran ohono, wedi cael ei dalu erbyn y dyddiad penodedig. Y dyddiad y gellir cymhwyso llog yw'r diweddaraf o'r canlynol:

    i. y dyddiad olaf fel y'i nodir yn yr Hysbysiad Cosb Ariannol a/neu'r Hysbysiad Adennill Costau y mae'n rhaid i'r taliad gael ei wneud;
    ii. y dyddiad olaf y gall corff dyfarnu apelio, (os na chaiff unrhyw apêl ei gwneud ar neu cyn hynny);
    iii. os caiff apêl ei gwneud yn erbyn Hysbysiad Cosb Ariannol a/neu Hysbysiad Adennill Costau:

I. dyddiad olaf y cyfnod o 14 diwrnod, gan ddechrau gyda'r dyddiad y penderfynir ar yr apêl, neu

II. os caiff yr apêl ei thynnu'n ôl cyn y penderfynir yn ei chylch, dyddiad olaf y cyfnod o 14 diwrnod, gan ddechrau gyda'r dyddiad y caiff yr apêl ei thynnu yn ôl.

34. Telir unrhyw symiau mewn perthynas â'r costau i'w hadennill i Cymwysterau Cymru.

35. Y llog i'w gymhwyso yw'r llog a bennir yn adran 17 o Ddeddf Dyfarniadau 1838 (p.110) o bryd i'w gilydd. Ar adeg cyhoeddi'r polisi hwn, y gyfradd a nodir yw 8% y flwyddyn. Ni fydd y llog a osodir yn fwy na swm y gosb neu'r costau sydd i'w hadennill.